# Herio disgyblion Bl 1 o fewn yr Ardaloedd Dysgu

Dosbarth Ogwen, Ysgol Abercaseg

# Cynllunio

## Mewnbwn y plant a'u rhieni



Gruff

**Ysgol Abercaseg**

Thema'r dosbarth y tymor nesaf fydd 'Ein Pentref ni'. Os gwelwch yn dda trafodwch gyda'ch plentyn yr hyn mae 'Ein Pentref ni' yn ei olygu gan gofnodi'r syniadau yn y bocsys isod.

The class theme next term is 'Our Village'. Please discuss this theme with your child, and record any ideas in the box below.

Syniadau'r plentyn...
Child's ideas...

Parc
Tai
Llyfrgell
traffig
coed
bwyd
clwb rygbi

Syniadau'r rhiant...
Parent's ideas...

Siarad gyda'r cymdogion
Siopa yn y siopau
Ymweld a'r teulu
Ysgol
Cerdded wrth yr afon

Os gwelwch yn dda dychwelwch y daflen erbyn dydd Llun 14/12/2015.

Please return the form by Monday 14/12/2015.

**Diolch am eich cefnogaeth. Thank you for your support.**

## Grid GED



- **Cynllun tymor canolig yn deillio o fewnbwn y plant a’u rhieni, cynlluniau tymor hir a blaenoriaethau’r CDY.**

# Ein Pentref Ni (Y Cawr Mwya Crand yn y Dre)

## Datblygiad Mathemategol

Datrys problem o fewn yr holl weithgareddau

- Hyd - Mesur yn ansafonol ac yn safonol -y cawr, mesuriadau personol, amcangyfrif mesuriadau ar gyfer y llygod. Cymharu a threfnu mesuriadau. Datblygu geirfa: hyd, uchder, pellter, hiraf, talaf, byrraf a.y.y.b, Sicrhau fod y plant yn gallu dewis yr offer a’r unedau mesur priodol.
- Mesur olion traed / camau - gosod mewn trefn o’r hiraf i’r byrraf - llenwi tabl a chreu graff - esbonio’r data.
- Gwneud coron neu het ar gyfer y parti - mesuriadau personol, yr un hyd rhwng yr addurniadau.
- Ymholiad - ydy’r plant talaf yn gallu neidio yr uchaf/ y pellaf?
- Mas - pwyso cynhwysion i wneud teisen i’r cawr, dyblu cynhwysion arferol, hanneru cynhwysion arferol ar gyfer y llygod. Ymchwilio i ffracsiynau, rhannu’r bwyd/teisen yn deg rhwng pawb.
- Data - hoff fwyd parti - brechdanau, jeli, teisen. Arolwg trafnidiaeth ar y Stryd Fawr/sbwriel ar y stryd.
- Arian - prynu bwyd i’r cawr - dyblu pris cynhwysion arferol. Gwaith lluosi arian ar gyfer faint o blant sy’n dod i’r parti - os yw un yn costio.....c faint fydd ... yn gostio?
- Siop esgidiau - mesur hyd traed, prynu mwy nag un pâr o‘sgidiau/faint allwch chi brynu gyda £ ....?
- Rhifau yn ein pentref ni - cofnodi rhifau wrth fynd am dro o amgylch Bethesda—cymharu a trefnu’r rhifau.
- Amser - amseroedd agor a chau gwahanol siopau, ar ba ddyddiau mae nhw’n agored, gwaith amserlenni bws.
- Prosiect mentergarwch - tyfu a gwerthu cennin pedr, gwariant ag elw.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Ail adrodd y stori ar lafar ac yn ysgrifenedig ar ffurf Pie Corbett. Addasu’r stori i greu straeon creadigol personol.
- Disgrifio cawr - darllen a thrafod llyfr Campau saith Cawr. B.W .Jones (CC)
- Creu cerddi. Trafod odlau.
- Ysgrifennu ffeithiol am yr arbrofion.
- Dyddiadur plentyn ers talwm / hunangofiant / erthygl papur newydd yn ymwneud ag amser y streic fawr. (CC)
- Llythyr i wahodd ymwelwyr i adrodd hanes Bethesda ers talwm / llythyr o ddiolch. (CC)
- Poster / pamffled - gwybodaeth am Fethesda i ymwelwyr (CC)
- Poster yn hysbysebu digwyddiad yn Neuadd Ogwen. (CC)
- Rhestr siopa ar gyfer y parti.
- Creu rysaitiau cacennau cri/ bara / brechdanau.
- Gwahoddiad ar gyfer y parti.
- Labelu map o’r Stryd Fawr / Parc Meurig.
- Mynegi barn e.e. a fyddai ffordd osgoi i Fethesda yn beth da?
- Cymharu Bethesda â Chaerdydd - Gogledd a De Cymru. E-bostio ysgol yng Nghaerdydd am wybodaeth. (CC)
- Creu holiadur i ddarganfod barn pobl am yr yr ardal leol.
- Sêt boeth - holi cymeriadau yn y stori ynglŷn â’u teimladau.

## Addysg Grefyddol

- Siôn y cawr eisiau dysgu mwy am y capel / eglwys ym Methesda - rôl yr arweinwyr, gwasanaethau / defodau / traddodiadau / symbolau arwyddocaol.
- Y Pasg - creu gweddi am Y Gwanwyn a bywyd newydd.
- Dydd Mawrth crempog.
- Straeon o’r Beibl yn ymwneud â helpu eraill - Samariad Trugarog, Yr Iesu’n gwella, Porthi’r 5 mil - dramateiddio’r straeon.
- Helpu eraill yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach, chwarae rôl di-eiriol er mwyn i eraill ddyfalu.
- Ail adrodd a dramateiddio stori Dewi Sant. (CC)
- Gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd a dangos gofal ac ystyriaeth - creu wal o ddiolch.

## GDB

- Trafod a chymharu’r tywydd. Cadw cofnod ddyddiol dros amser—symbolau tywydd, mesur tymheredd, casglu idiomau a dywediadau tywydd (CC)
- Arbrofion – mae’r rhewgell wedi torri, beth fyddai’r cynhwysydd (defnydd) gorau i gadw’r rhew rhag dadmer ar gyfer y parti . Pa ddefnydd fydd y gorau i gadw’r cawr yn gynnes? Ar pa dymheredd mae dŵr yn rhewi? Pam nad yw dŵr yn rhewi yn yr oergell?
- Gwneud rholiau bara ar gyfer y parti / crempogau / cacennau cri / cawl cennin —cymysgu / tylino, ymchwilio i effaith gwres ar y cynhwysion. (CC)
- Siopau / stryd Bethesda ers talwm - cymharu â heddiw. (CC)
- Holi ymwelwyr am sut le oedd Bethesda ers talwm - Y Chwarel / hanes y streic (dyddiadur/ erthygl papur newydd).
- Ysgrifennu dyddiadur plentyn/ gweithiwr ers talwm, cyfnod y streic. (CC)
- Ymweld â Chastell Penrhyn, cymharu cartref chwarelwyr â chastell Penrhyn. (CC)
- Ymweld â Pharc Meurig, Cyfoeth Naturiol Cymru, tynnu ffotograffau, creu map o’r Parc neu o Fethesda. (Ap ThingLink.) (CC)
- Gwneud map i’r cawr - sut i gyrraedd siop Spar / Londis o’r ysgol i gael bwyd ar gyfer y parti.

## Datblygiad Corfforol

- Datblygu sgiliau echddygol bras drwy fynd o amgylch y pentref / am dro i’r parc.
- Dysgu dawns Werin / dawns greadigol adloniant. (CC)
- Sgiliau echddygol manwl - creu cerdyn Sul Y Fam, Pasg, llwy garu, llestri parti.
- Datblygu sgiliau llawysgrif drwy greu storiau creadigol, penillion, dyddiadur ayyb.
- Symud creadigol / dychmygus fel cewri / llygod - ailadrodd patrymau symud er mwyn datblygu ffurfder y cyhyrau, tyndra priodol a chydbwysedd.

## PChLlADd

- Mae Siôn y cawr yn helpu eraill - trafod y ffyrdd y mae pobl yn dangos gofal am eraill. Diolch am y bobl sy’n ein helpu.
- Yn dilyn ymweliad â Pharc Meurig a’r Stryd Fawr trafod sut y gallwn ofalu a dangos parch tuag at yr amgylchedd.
- Disgrifio a thrafod nodweddion ffrind da a sut y gellir gwneud ffrindiau.
- Gwisgo’n addas ar gyfer y tywydd.
- Edrych ar y digwyddiadau yn y stori - beth yr ydym ei angen i fyw’n hapus ac iach.
- Sêt boeth - holi cymeriadau yn y stori ynglŷn â’u teimladau.
- Diogelwch ar y ffyrdd wrth gerdded i’r ysgol a mynd am dro - poster / arwyddion gofal.
- Datblygu dealltwriaeth o wahanol rolau mae pobl yn eu chwarae yn y gymuned leol– e.e. meddyg, nyrs, ficer, plismon

## Datblygiad Creadigol

- Adeiladau stryd Bethesda - arsylwi a thrafod gwaith Cefyn Burgess. (CC)
- Arsylwi ac efelychu gwaith Ann Lewis neu Kyffin Williams. (CC)
- Dylunio a gwneud cerdyn Sul Y Fam.
- Dylunio a gwneud cerdyn Pasg.
- Gwneud lluniau yn defnyddio gwahanol arddulliau o beth sydd i’w weld o wahanol gyfeiriadau’r cwmpawd o amgylch yr ysgol.
- Dydy’r cawr ddim yn gyfarwydd â Bethesda - Beth sydd i’w weld o ffenestr eich ystafell wely chi? (CC)
- Dylunio a gwneud llestri ‘New Clay’ ar gyfer y parti.
- Arsylwi llestri ar hen ddresel Cymreig - cymharu â llestri cyfoes. Arsylwi a thrafod platiau Buddug(CC)
- Dylunio a gwneud llwy garu.
- Creu adloniant ar gyfer y cawr, e.e. dawns, drama neu adrodd cerddi.
- Ysgol Werdd - ail gylchu defnyddiau er mwyn gwarchod yr amgylchedd - cystadleuaeth het Basg.

- **Cynllunio tasgau ffocws heriol a gwahaniaethol.**

| Maes Dysgu | Sgiliau i'w datblygu Medrau allweddol | Tasgau Penodol | Agweddau gwahaniaethol | Asesu Camau Llwyddiant | Datblygiad Mathemategol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn draws gwricwlaidd |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen | Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth. Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad. Dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol. Dewis cyfarpar ac adnoddau priodol. Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain. Cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig.<br><br>Defnyddio cymariaethau hyd, uchder a pellter yn uniongyrchol. Defnyddio unedau ansafonol i fesur hyd, uchder a pellter. | Gweithgaredd 'Dewch i feddwl'- ymchwilio i fesur gydag unedau ansafonol rheolaidd – defnyddio grwpiau ailadrodd o glwbiau i greu ffon fesur ac adnabod yr angen i gychwyn o sero. Trafod yr angen i ddefnyddio uned safonol er mwyn mesur hyd. Ymarfer mesur gyda phren mesur a symud ymlaen i ddefnyddio ffon fetr ac olwyn metr. Mesur hyd, uchder a phellter gwrthrychau yn y dosbarth ac yn yr Ardal Tu Allan. Defnyddio geirfa priodol ar gyfer cymharu a threfnu hyd. Datrys problemau'n ymwneud â mesur hyd e.e. Mae'r cwn bach angen tennyn newydd bob un- rhaid mesur hyd yr hen dennyn a'i hanneru. Trafod yr offer mwyaf | **Haen isaf: ADY:** defnyddio cymariaethau yn uniongyrchol ar gyfer hyd ac uchder – hirach/byrrach na…… talach/byrrach na ……. Dechrau defnyddio unedau ansafonol rheolaidd i fesur hyd ac uchder. Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 30 gan eu ffurfio'n gywir a gofalu eu bod yn wynebu'r ffordd gywir. Trefnu rhifau at 30. Gwybod dwbl rhifau 1 – 5 a'r hanner cyfatebol. Datrys problemau syml sy'n cynnwys dyblu a hanneru.<br><br>**Haen ganolig:** defnyddio unedau ansafonol rheolaidd ac unedau safonol i fesur hyd ac uchder. Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 50 gan eu | A yw'r disgyblion yn gallu:<br><br>Defnyddio geirfa priodol ar gyfer cymharu hyd, uchder a phellter.<br><br>Dewis a defnyddio offer ansafonol ar gyfer mesur hyd, uchder a phellter.<br><br>Dewis a defnyddio offer safonol ar gyfer mesur hyd, uchder a phellter.<br><br>Darllen, ysgrifennu a ffurfio rhifau'n gywir.<br><br>Cymharu a threfnu mesuriadau.<br><br>Dyblu rhifau.<br><br>Hanneru rhifau.<br><br>Deall gwerth lle rhifau dau ddigid.<br><br>Darllen a deall problemau | Ymateb, gyda mwy o fanylder, i ysgogiad creadigol.<br><br>Gwrando ar eraill â sylw cynyddol gan ymateb yn briodol fel arfer.<br><br>Mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol.<br><br>Adnabod a defnyddio nifer cynyddol o ffonemau a'u graffemau cyfatebol wrth gyfuno a segment geiriau hyd at ddwy sillaf.<br><br>Darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl.<br><br>Ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml gan ddarllen eu hymdrechion.<br><br>Sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir.<br><br>Defnyddio strategaethau |
| | Defnyddio unedau safonol i feusr hyd ac uchder. Defnyddio symbolau sy'n ymwneud â hyd.<br><br>Adnabod a deall odrifau ac eilrifau hyd at 100. Galw i gof dyblau a hanneri hyd at 10. Defnyddio strategaethau dosrannu er mwyn dyblu a hanneru rhifau dau ddigid. Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 gan eu ffurfio'n gywir a gofalu eu bod yn wynebu'r ffordd gywir. Datrys problemau un cam neu dau gam. Galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10 a gwerth lle er mwyn adio a thynnu rhifau mwy. | priodol ar gyfer y mesur ac esbonio'r dewis. Darllen e-bost gan Siôn y cawr – mae angen gwregys newydd. Mae mesuriad Siôn yn ddwbl hyd eich canol chi - ond yn anffodus mae'r llygod wedi cnoi'r tâp mesur! Trafod sut i ddatrys y broblem. Cofnodi'r mesuriadau ar ffurf tabl. Cymharu'r mesuriadau a'u trefnu o'r hiraf i'r byrraf, a.y.y.b. Ymarfer ymchwilio i ddyblu a hanneru gyda darnau Numicon, gweithgareddau ar y BGRh/cyfrifiadur/i pads, gemau bwrdd. Datrys problemau geiriol un a dau gam yn yr Ardal Tu Allan yn ymwneud â dyblu a hanneru hyd er mwyn chwilio am ddarnau o wregys y cawr i greu llwybr i helpu'r ci groesi'r gors. | ffurfio'n gywir a gofalu eu bod yn wynebu'r ffordd gywir. Trefnu rhifau hyd at 50. Gwybod dwbl rhifau 1 – 6 a'r hanner cyfatebol. Datrys problemau un cam sy'n cynnwys dyblu a hanneru.<br><br>**Haen uchaf: MAT:** defnyddio unedau safonol i fesur hyd ac uchder – metrau, hanner metrau neu gentimetrau. Defnyddio symbolau sy'n ymwneud â hyd. Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 gan eu ffurfio'n gywir a gofalu eu bod yn wynebu'r ffordd gywir. Trefnu rhifau hyd at 100. Gwybod dwbl rhifau 1 – 10 a'r hanner cyfatebol. Dyblu a hanneru rhifau dau ddigid heb groesi'r degau. Datrys problemau un a dau gam sy'n ymwneud â dyblu a hanneru. | geiriol.<br><br>Dewis y weithred priodol i ddatrys problemau un neu dau gam yn ymwneud â dyblu a hanneru mewn cyd destun hyd ac uchder.<br><br>Esbonio sut cafwyd yr ateb.<br><br>Creu problemau geiriol ar gyfer eraill. | sillafu sy'n cyfuno a segmentu.<br><br>Defnyddio sgaffaldiau sillafu. |

# Thema:
# Ein pentref ni




**Ffocws Mathemategol - mesur hyd/mas, data, adio, tynnu, lluosi, rhannu, dyblu, haneru.**

**Ffocws I,Ll,Ch - llafaredd, darllen a deall, ysgrifennu estynedig.**




**Darparu cyfleoedd i'r plant gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy ddatrys problemau traws gwricwlaidd a phroblemau sy'n berthnasol i fywyd bob dydd, yn yr Ardaloedd Dysgu - cynllunio heriau gwahaniaethol ond ymestynnol i bawb.**

# Heriau Sali Seren yn yr Ardaloedd Dysgu




Gosod cyd-destun i'r her er mwyn ennyn diddordeb y plant.

Nodi pa sgiliau sy'n cael eu datblygu.



Ar ddiwedd y sesiwn mae'r plant yn gwerthuso'i gwaith ac yn meddwl sut i'w wella y tro nesaf.

Mae'r plant yn trafod gyda'i gilydd ac yn creu m.p.ll.ar y cyd.

- **Siop Esgidiau Ogwen** (dewis y plant) – cymhwyso amryw o sgiliau mewn sefyllfa bywyd bob dydd: mesur hyd, arian, adio, tynnu, lluosi, rhannu, llafaredd, darllen, ysgrifennu.
- **Amrywio'r her** - newid y prisiau a'r nifer o barau y caiff eu prynu, rhoi swm penodol o arian i'r plant wario yn y siop, dweud fod rhaid talu gyda'r arian cywir oherwydd fod y 'til' wedi torri, rhoi newid a.y.y.b.


Dewch i brynu esgidiau newydd!
Mae bob pâr yn costio .........
Cewch brynu hyd at ..... pâr.
Faint yw cyfanswm y gôst?

Rydych chi'n dysgu:
- adio
- lluosi
- talu gyda'r arian cywir

I wneud Sali Seren yn hapus mae'n rhiad i mi gofio:
- Siarad yn gwrtais "... chi ...."
- Adio neu luosi i wybod cyfanswm y gôst
- Cofnodi'r brawddegau rhif

Cofiwch dacluso'r esgidiau trwy ddatrys y problemau ar y pocedi.



| Math o esgidiau | |
|---|---|
| esgidiau ysgol | |
| esgidiau glaw | |
| esgidiau ymarfer | |
| esgidiau peldroed | |
| esgidiau sodlau uchel | |
| bŵts | |
| sandalau | |
| fflip fflops | |




Siop esgidiau Ogwen

| | |
|---|---|
| Nifer o barau o esgidiau | |
| Pris bob pâr | |
| Cyfanswm y gôst | |

Cofnodwch y frawddeg rhif adio:

Cofnodwch y frawddeg rhif lluosi:







# Siop esgi au Ogwen

| Nifer o barau o esgidiau | 3 |
| --- | --- |
| Pris bob pâr | £5.00 |
| Cyfanswm y gôst | £15.00 |

Cofnodwch y frawddeg rhif adio:

£5.00 + £5.00 + £5.00 = £15.00

Cofnodwch y frawddeg rhif lluosi:

3 × £5.00 = £15.00






- **Rhoi mwy nag un her yn yr ardal er mwyn rhoi elfen o ddewis i'r plant.**

- **Rhaid tacluso a cadw'r 'esgidiau' yn y pocedi cywir drwy:**
- **fesur hyd yn ansafonol neu'n safonol**
- **datrys problem un neu dau gam.**








- **Annog y plant i herio'i gilydd er mwyn ymarfer geirfa a strategaethau rhif:**







- **Cyfle i ymchwilio i gymesuredd drwy ddylunio patrymau.**








# Her Ardal Dwylo Prysur

**Mae'r ci bach angen tennyn er mwyn mynd am dro!**

**Mae'n rhaid i'r tennyn fod yn ddwbl hyd y ci a 10cm yn hirach.**



Rydych chi'n dysgu: mesur hyd yn gywir

I wneud Sali Seren yn hapus mae'n rhaid i mi gofio:

- Mesur hyd y ci yn gywir
- Dyblu ac adio 10
- Torri'r papur yr hyd cywir
- Creu patrwm o siapau ar y tennyn gyda'r un faint o le rhwng bob siap



# Gwahaniaethu’r her

## Her isaf


Mae’r cŵn bach angen mynd am dro! Fedrwch chi wneud tennyn iddynt?

Mae’n rhaid i’r tennyn fod yn **ddwbl** hyd y ci.

Faint fydd hyd y tennyn?

.................+ ................. = .................

Fedrwch chi ddylunio patrwm lliwgar ar y tennyn fesul 2 giwb?

Diolch.

## Her ganolig


Mae’r cŵn bach angen mynd am dro! Fedrwch chi wneud tennyn iddynt?

Mae’n rhaid i’r tennyn fod yn **ddwbl** hyd y ci a **10cm** yn hirach.

Faint fydd hyd y tennyn?

........ cm + ........ cm = ........

........ cm + ........ cm = ........

Fedrwch chi ddylunio patrwm lliwgar ar y tennyn fesul 2 cm, 5 cm neu 10 cm?

Diolch.

## Her uchaf


Mae’r cŵn bach angen mynd am dro! Fedrwch chi wneud tennyn iddynt?

Mae’n rhaid i’r tennyn fod yn **ddwbl** hyd y ci a ____cm yn hirach.

Faint fydd hyd y tennyn?

Fedrwch chi ddylunio patrwm lliwgar ar y tennyn fesul 2 cm, 5 cm neu 10 cm?

Diolch.

- **Her Ardal Tu Allan – darllen a deall, dewis strategaethau rhif i ddatrys y broblem, cofnodi , mesur hyd, cyd weithio, datblygu sgiliau corfforol mawr a mân.**

**Mae'r ci angen llwybr saff, sych ar draws y gors ond mae gwregys y cawr mewn darnau!**

**Fedrwch chi gael hyd i'r darnau cywir er mwyn helpu'r ci?**



Rydych chi'n dysgu:
- Darllen yn ofalus
- Datrys problemau
- Mesur yn gywir

**I wneud Sali Seren yn hapus mae'n rhaid i mi gofio:**

- Dewis offer
- Darllen y broblem fwy nag unwaith
- Dyblu, hanneru
- Adio, tynnu
- Cofnodi'r brawddegau rhif

**Her ganolig/uchaf**

Faint yw hyd y gwregys?

Mae 10cm yn fyrrach na dwbl 50cm

Faint yw hyd y gwregys?

Mae 10cm yn hirach na hanner 80cm

Faint yw hyd y gwregys?

Mae 20cm yn fyrrach na dwywaith 40cm

Faint yw hyd y gwregys?

Mae 20cm yn hirach na hanner 60cm







- # Her ‘Ditectifs dysgu’

Darllen a datrys y broblem.
Chwilota am y cerdyn sydd gyda’r ateb neu’r côd QR cywir arno.
Pwy sydd wedi casglu’r mwyaf o gardiau?
Gwirio’r atebion ar y cyd.






## Her isaf

Mae hyd fy sgarff yn ddwbl 10cm.



Mae hyd fy sgarff yn hanner 20cm.



Mae hyd fy sgarff yn ddwbl 40 cm.



Mae hyd fy sgarff yn hanner 60cm.





# Gwahaniaethu her 'Ditectifs dysgu'

## Her ganolig/uchaf

Faint yw hyd y goler?



Mae 20cm yn fyrrach na dwbl 40cm.

Faint yw hyd y tei?



Mae 10cm yn hirach na dwbl 30cm.

Faint yw uchder y cap?



Mae 30cm yn fyrrach na hanner metr.

Faint yw hyd y gwregys?



Mae 20cm yn hirach na dwbl 40cm.

## Her ymestynnol

Roedd gan y teiliwr 1 metr o ddefnydd. Gwnaeth un coler yn 20cm ac un arall yn 70cm. Faint o ddefnydd oedd ar ôl?





Roedd gan y teiliwr 1 metr o ddefnydd. Gwnaeth un coler yn 30cm ac un arall yn **ddwbl** ei hyd. Faint o ddefnydd oedd ar ol?





Roedd gan y teiliwr 1 metr o ddefnydd. Gwnaeth un coler yn 60cm ac un arall yn **hanner** ei hyd. Faint o ddefnydd oedd ar ôl?





Roedd gan y teiliwr 1 metr o ddefnydd. Roedd wedi gwneud 3 coler **yr un hyd** a roedd ganddo 10cm o ddefnydd ar ôl. Faint oedd hyd y coleri?



## Her Ardal Rhifau Rhyfeddol

## Datblygu sgiliau Mathemategol, ILlCh, GDB,TGCh, PChLlADd, Creadigol, Corfforol.






# Rhoi dewis o heriau:

## Dylunio poster




## Uwch gylchu sbwriel

- **Defnyddio syniadau a dyluniadau'r plant i arwain y dasg ffocws dilynol.**







## Her Ardal Ddarganfod

## Datblygu sgiliau Mathemategol, ILlCh, GDB,TGCh, PChLlADd, Corfforol.

**Mae Siôn eisiau dod i Fethesda ar ei wyliau!**
**Fedrwch chi ei helpu i bacio'i ges ar gyfer gwahanol fath o dywydd?**



Rydych chi'n dysgu:
- didoli a dosbarthu
- creu rhestr

**I wneud Sali Seren yn hapus mae'n rhaid i mi gofio:**

- **Gweithio gyda fy mhartner**
- **Codi odrif i gael tro**
- **Esbonio i fy mhartner sut wyf yn didoli a dosbarthu**
- **Cofnodi'n ofalus ar y rhestr**



# Rhoi dewis o heriau:

## Rhoi’r dillad yn nhrefn yr wyddor.




## Creu cerdyn post.




## Cyfateb enw a disgrifiad.



| | |
|---|---|
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo i fynd i nofio. |
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo i gadw eich corff yn sych yn y glaw. |
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo i fynd i’r gwely yn y nos. |
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo i gadw eich corff yn gynnes yn yr eira. |
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo i gadw eich pen yn sych yn y glaw. |
| ........................................ | Rhaid fy ngwisgo ar eich traed yn yr haf. |



## Didoli a dosbarthu ar ddiagram Venn.



## Her Ardal Dwylo Prysur

## Datblygu sgiliau Mathemategol,ILlCh,Creadigol, Corfforol, PChLlADd, Add.Gref,TGCh.









Rydych angen gwneud addurn allan o does ar gyfer eich cerdyn Pasg.
Fedrwch chi wneud ddigon o does i chwi a'ch partner?

Rydych chi'n dysgu:

- Darllen yn gywir
- Mesur yn gywir
- Dylunio addurn

I wneud Sali Seren yn hapus mae'n rhaid i mi gofio:

- Darllen y rhestr cynhwysion yn ofalus
- Dyblu'r cynhwysion
- Pwyso'r cynhwysion yn gywir
- Mesur y dŵr yn gywir



Fedrwch chi greu addurn allan o does i fynd ar flaen eich cerdyn Pasg?

Pa un o'ch dyluniadau ydych chi'n ei hoffi?

Dyma rysait i wneud toes ar gyfer ...1... addurn.

1 cupan blawd

1 cupan halen

1 cupan dŵr

Gwnewch ddigon o does i chi a'ch partner.



Fedrwch chi greu addurn allan o does i fynd ar flaen eich cerdyn Pasg?

Pa un o'ch dyluniadau ydych chi'n ei hoffi?

Dyma rysait i wneud toes ar gyfer 1 addurn.

50 g blawd

50 g halen

40 ml dŵr

Gwnewch ddigon o does i chi a'ch partner.

## Cyfle i ddefnyddio offer a chynhwysion 'go iawn'.













**Y plant wedi tynnu'r lluniau yma eu hunain gyda'r i pad ac wedi eu defnyddio i greu rysáit ar Pic Collage.**

# Her Ardal Tu Allan: gwneud moddion 'Llyfr Coch Ogwen' fel meddygon ers talwm, gan ddilyn eu ryseitiau eu hunain.


Llyfr Coch Ogwen

Rysait ar gyfer gwella: dolur gwddw ✓

Cynhwysion: 2g blodau meillion ✓

3g dail tafol ✓

2g blodau lafant ✓

100ml o ddŵr glân ✓

Dull:

1. Casglwch y dail a'r blodau. ✓

2. Golchwch y dail a'r blodau. ✓

3. Sychwch y dail a'r blodau. ✓

4. Berwch y dail a'r blodau yn y dŵr am 10 munud. ✓

5. Trwythwch y dail a'r blodau am 10 munud. ✓

6. Hidlwch y dŵr trwy'r hances lân. ✓

7. Yfwch y moddion tair gwaith y dydd. ✓

gan Sylvie Meddygon [illegible] ✓

Pwyso a mesur cynhwysion naturiol yn safonol.




Llyfr Coch Ogwen

Rysait ar gyfer gwella:

Cynhwysion:

Dull:




**Pwyso a mesur cynhwysion naturiol yn ansafonol.**

# Llais y plentyn



# Her Ardal Tywod a Dŵr

Mae twll ym mhoced y bwch gafr a mae popeth wedi disgyn i fewn i'r dŵr!
Fedrwch chi ei helpu i wybod pa bethau sy'n arnofio a pha rai sy'n suddo?



Rydych chi'n dysgu:

- ymchwilio
- arsylwi a cofnodi

I lwyddo mae'n rhaid i mi gofio:

- Tynnu eilrif o'r bag i gael tro
- Rhagfynegi ac esbonio i fy mhartner
- Cofnodi'n ofalus ar y siart



# Her Ardal Tu Allan: ymchwilio i siapiau 2D





**Pwy sy’n gallu creu y mwyaf o drionglau gyda naw ffon yn unig?**

- **Dewch i greu siapiau 2D gyda ffyn.**
- **Labelwch y siapiau.**
- **Rhowch beg coch ar bob ochr syth a pheg glas ym mhob cornel.**
- **Faint o bob lliw ddefnyddioch chi?**
- **Ydych chi’n sylwi ar rhywbeth diddorol?**
- **Pa siapiau na fedrwch chi greu? Pam?**



# Her Ardal Tu Allan: ymchwilio i siapiau 2D





- Defnyddiwch y ffyn i greu llun.
- Pa siapiau ddefnyddioch chi?
- Pa siapiau na allwch chi greu? Pam?
- Rhowch giwb ym mhob ongl sgwar.
- Sawl ongl sgwar sydd yn eich llun?
- Pwy sydd wedi creu y mwyaf o onglau sgwar?
- Sut fase chi’n gwella’ch llun y tro nesaf?



# Her Ardal Tu Allan: ymchwilio i siapiau 3D







**Adeiladwch loches sy'n gallu dal o leiaf 2 berson.**
**Pa siapiau wnaethoch chi greu? Pam? Beth fase chi'n newid y tro nesaf?**







# Her Ardal Tu Allan: ymchwilio i siapiau 3D





**Adeiladwch loches sydd o leiaf 1 metr o uchel.**
**Pa siapiau wnaethoch chi greu? Pam? Beth fase chi’n wneud yn well y tro nesaf?**





# Her Ardal Tu Allan: ymchwilio i siapiau 3D





**Adeiladwch loches sydd o leiaf 1 metr o uchel ac 1 metr o hyd a lled, heb ddefnyddio cratiau! Sut fase chi'n gwella'ch gwaith y tro nesaf?**



